

Trwyddedau Parcio i Ofalwyr Lluosog - Telerau ac Amodau

- Caiff pobl sy'n ymweld i fodloni anghenion iechyd a gofal preswylwyr fynediad dan y cynlluniau. Gall y preswylwyr hynny sy'n byw mewn parth parcio i breswylwyr yn unig wneud cais am drwydded parcio i ofalwyr ar gyfer teulu neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r eiddo i roi gofal.
- Caiff preswylwyr sy'n derbyn gofal gan fwy nag un ffynhonnell eu hystyried ar gyfer trwydded gofalwr sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad yn hytrach nag â cherbyd penodol. Trwydded i Ofalwyr Lluosog yw'r enw ar hon. Dim ond pan nad yw Trwydded i Ofalwr enwebedig yn briodol gan fod mwy nag un person yn mynychu'r eiddo i gefnogi anghenion gofal neu feddygol y mae'r drwydded hon ar gael.
- Mae angen i ymarferwyr meddygol y preswilydd gefnogi ceisiadau am Drwydded Parcio i Ofalwyr Lluosog drwy gyflwyno llythyr gan y Feddygfa/Bwrdd Iechyd yn cadarnhau bod gofal yn cael ei roi gan nifer o weithwyr proffesiynol megis Meddygon, Nyrsys Ardal, Nyrsys Iechyd Cymunedol, Bydwagedd, Cynorthwyr Gofal Cartref, a/neu Ymwelwyr Iechyd. Os rhoddir gofal gan sefydliad masnachol neu elusennol neu os yw wedi'i drefnu heb gymorth gan y Feddygfa/Bwrdd Iechyd, bydd angen llythyr gan y sefydliad gofal ar bapur swyddogol yn cadarnhau bod nifer o staff yn rhoi gofal cartref yn y cyfeiriad.
- Bydd yn dal angen i breswylwyr sy'n gwneud cais am Drwydded Parcio i Ofalwyr Lluosog brofi eu bod yn byw yn y cyfeiriad yn y parth parcio i breswylwyr yn unig drwy gyflwyno bil y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol, bil trydan/nwy/dŵr dyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf, cytundeb tenantiaeth, datganiad morgais, cyfriflen banc, dogfennau yswiriant neu drwydded yrru.
- Caiff Trwydded i Ofalwyr Lluosog ei hargraffu a'i rhoi i'r preswilydd unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo a bydd yn cynnwys y manylion sydd eu hangen gan y cyngor.
- Dim ond yn y parth a nodir ar y llythyr sy'n cadarnhau'r drwydded y gellir defnyddio Trwydded i Ofalwyr Lluosog.
- Caiff Trwydded i Ofalwyr Lluosog ei rhoi yn rhad ac am ddim. Gellir rhoi uchafswm o 1 drwydded parcio i ofalwr fesul eiddo.
- Caiff Trwydded i Ofalwyr Lluosog ei hadnewyddu'n flynyddol a bydd yn ddilys am 12 mis. Caiff y drwydded ei rhoi a'i hadnewyddu ar gais unigolyn a thrwy ffurflenni cais priodol.
- Wrth barcio cerbyd mewn man parcio i breswylwyr yn unig, ni ddylid ei ddefnyddio i werthu na llogi unrhyw wasanaeth.
- Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i derfynu trwyddedau a gaiff eu defnyddio'n dwyllodrus neu amhriodol, heb ad-dalu unrhyw gostau.
- Mae'n drosedd ffugio neu feddu ar drwydded wedi'i ffugio neu wneud datganiad ffug i gael trwydded.
- Ni ellir trosglwyddo trwyddedau os byddwch yn symud i gyfeiriad arall.
- Caiff trwyddedau eu dychwelyd i'r cyngor pan nad yw'r deiliad yn byw yn y cyfeiriad y mae'r drwydded yn gysylltiedig ag ef mwyach neu pan nad oes angen y drwydded mwyach.
- Caiff ceisiadau am Drwydded Parcio i Ofalwyr Lluosog eu hoedi os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir.

Gellir amrywio'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd, ond bydd unrhyw breswilydd sy'n gwneud cais am drwydded yn cael esboniad clir o'r telerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i'r drwydded yr adeg honno.

Mae telerau ac amodau llawn ar gyfer Trwyddedau Parcio i Breswylwyr ar gael ar [wefan y cyngor](#).